Rhodds (W) 1550/37

LYNN, Dydd Calan-mai, 1798.

LLYTHYR AT GYMMANFA

O Weinidogion a Chenhadon, Cynnrychiolwyr Eglwysi y Bedyddwyr yn ngorllewin Cymru, yn cyfarfod yn Ebenezer yn Sir Benfro, ar yr ail Ferchur a Iou o Fehefin, yn y flwyddyn 1798; ac at yr amryw Eglwysi y maent yn eu cynnrychioli.

Anwyl Gydweinidogion a Hʼn Cyfeillion,

GOBEITHIO na fydd na blin nac anfoddhaol genych gael un llythyr yn ychwaneg oddi wrthyf ar y testyn hollbwysig hon, lle yr ysgrifenais lawer un cyn hyn o'ch plaid, a'ch cyfiawnhau neillduol, pan yr oedd taro arnoch. —— Trwy gydsyniad hyfryd honno, mi a anddifynnais eich buchos yn ewyllysgar a rhoddion, am fy mod yn gydwybodol yn credu mai achos gwerthfawr oedd yr eiddo, heb olygu na thâl na diolch oddiwrthych chwi am fy llafur yn y cyfamser. Mi a ymdrechais na chuddio fel dros y gwrthwynebiad na ffyddlondeb, chwaith, tu ag attoch chwithau, fod am gyfrannu prinach o'm tâl i yn awr nʼi phryd hyny. Goddefwch, gan hyny, yr ailgerchiad hwn, a phwyfochi ef yn ofalus a gofalus yn ufuddhau i'r cyfarwyddyr. Pwy a wyr lle dychon ei wneud mantais i'ch chwi, ac i'r holl eglwysi? Duw a wnel mai felly y bo. Amen.

Pe nyfoddiad i Gymru y tro diweddaf oedd, yn beunos, i ymweled tŷ waith drachefn a'm hanwyl berthynasau, a'r cyfeillion o'm hen gyfeillion ag oeddent ettto yn aros yn y tu yma i'r bedd. —— Meddyliais, hefyd, y gallai'r daith, yng nghyd ag enyd o amser i anadlu rwyr gyhad fy ngenedigaeth, fod o fyw ar les i fy iechyd, ag oedd er ys rhai blynyddau gwedi dechreu dadfeilio, ac ymyned yn amlwg waeth-waeth. —— Braidd y gallaf dybied eiriol yn nhynol imi ychwanegu ar y pen hwn.

Gwedi mi ddyfod i'r wlad, meddyliais, at y cyntaf, y rhôi fy llafur yn y weinidogaeth fod oryw fesur o ddefnyddioldeb i'w gael yn eich plith: ond gwelais yn fuan ebrwydd, ei fod yn rhy debyg mai gwaith ofer fyddai dyfgwyl hyny. —— Gwedi ewyllysio fwy draeth a ddechreuodd fy ngoleuo i yn y mattter hwn, a daeth cymmanfa Rhydwilym a'r peth i ddigwydd a chyfiawn amserwydd. Nid ymwthio heb gais neu gefnogaeth a wnaethum i ysgrifenu Llythyr y Gymmanfa honno, fel y gwyr rhai o honoch o'r gorau. Ar ddechreuad neillduol, ellwaith ac ellwaith, yr ymunodd y gwaith yn llaw a hyny, oddiwrth un o'r gwyr mwyaf selfrwg ac anrhydeddus a feddweh trwy holl derfynau Cymru y ne heddyw, yr hwn a chydsyniad gweinidog yr Eglwys lle yr oedd y Gymmanfa

i gael ei chadw.——Yr oedd hyd yn oed teſtun y Llythyr wedi ei ragbennodi. Pwy à dybygſai, gwedi'r cwbl, y cawſwn ſy meio ar yr achos; neu y gallaſai Llythyr o gynghor difrifol i ddarllen yr yſgrythurau yn y cyfarfodydd, fel rhan o'r gwaſanaeth cyhoeddus, gwrdd a chymmaint o anfoddionrwydd a gwrthwynebiad mewn Cymmanfa o Fedyddwyr?——Ha wyr, frodyr, y mae hyn yn haeddu ei adgoffa, a'i ailyſtyried gennych——os nid, hefyd, i alaru am dano.

Ar ol Cymmanfa Rhydwilym, mi a ymroddais i feſyll o'r neilldu, a defnyddio fy amſer, yn dra dieſceulus, i gymmeryd golwg led fanol ar eich trefn a'ch helynt. Clywſwn lawer, obryd i bryd, am ragorol a blodeuog gyflwr crefydd yn eich myſg, yn enwedig oddiar yr adfywiad, neu y diwygiad diweddar, fel ei gelwid; a meddyliais gymmeryd cyfle, bryd hyny, i ddyfal graffu ar yr amrywiol ymdddangoſiadau, i weled pa mor belled yr oeddent yn cyfatteb neu yu cytuno a'r hanes, neu'r ſwn ag oedd wedi myned ar lled. Goddefwch imi, yn awr, frodyr, i oſod gereich bron rai o'r amgylchiadau mwyaf hynod a ddarfu imi ſylwi arnynt yn y cyfamſer.

Gwelais, yn fuan, argoelion rhy amlwg o fawr ddiffyg gwiliadwriaeth dros eich gilydd, neu o wir ffyddlondeb criſtnogol a charedigrwydd brawdol, yn eich plith; ac hyd yn oed, yn myſg y gweinidogion.——Pan fo brodyr proffeſedig, a chyd-aelodau yn eſceuluſo gwilied dros eu gilydd mewn cariad, ac yn peidio cynghori, rhybuddio, neu geryddu y naill yllall, pan y byddo achos, bach iawn yw yr argoel fod eu crefydd hwy yn ei grym ac yn blodeuo. Llai etto yw'r argoel o hyny, os byddant, yr un pryd, yn arfer, neu yn chwannog i ddynoethi gwendidau a beiau eu brodyr, neu i dduo, a bychanu y naill yllall ynghefnau eugilydd; yn lle eu hargyhoeddi, yn garedig a ffyddlon, yn ol y rheol yſgrythurol, rhyngddynt a hwy eu hunain, neu yn fwy cyhoedd, yn ol natur y troſedd.

O ba werth, neu ddefnydd, attolwg, a all cymdeithas grefyddol fod, dan y fath amgylchiadau? Ie, o ba wir werth neu ddefnydd y bu y fath gymdeithas, o bryſur, i'r gwr a oddiweddwyd gan y bai gwaradwyddus o feddwdod yn Aberteifi, a thrannoeth yn y Caſtell Newydd, yu nechreu yr hâf diweddaf, heb ſon am brydiau eraill? Yr oedd pawb, yn mhob man, am y parotaf i wfftio meddwdod y pregethwr, ond ni chlywais i am neb a fu mor garedig affyddlon tu ag atto, a cheiſio ei argyhoeddi am ei fai, a'i oſod ar ei wiliddwriaeth yn erbyn y fath dro rhagllaw.——Gallaſai hyny, gydabendith, fod yn offerynol i ragflaenu anferthwch erchyll ei ymddygiad ef, gwedi'n, yn cymmeryd y blaen yn y meſurau erlidgaethus yn erbyn ei frawd o Abertawe, nid yn unig yn y Gymmanfa, ond hefyd, gwedi hyny, yn Nghwrddau Cwarter, Blaenau, Glyn-Tawe, Trefdraeth, a Chaerwyr.——Os rhaid oedd cym-

meryd y fath feſurau, tybygſid mai nid eſe oedd y cymhwyſaf yn y byd i flaenori ar yr achos, nac, ychwaith, i gymmeryd arno unrhyw ran neu gyſran yn y fath orchwyl. Gallid, yſgatſydd, wneud cyffelyb wrthddadl, hefyd, yn erbyn eiymddygiad hynod ef, Nos Cwrdd Cwarter y Graig, tu ag at Awdur y Geiriadur.* Darfu ſyndod am ei haerllug ddigywilydd-dra ef, bryd hyny, beri i'r gwr hwnw ei drin ef gyda mwy o lymder nag oedd ef yn gyffredin yn ei arfer tu ag at ei wrthwynebwyr. Ond y mae'n debyg na chadd hyny ddim o'r ddymunol effaith arno ef.——Tra hynod oedd clywed un o bentywyſogion Neidwriaeth yn pallu cynnyg amddiffyn ei anwyl gelſyddyd; a digrif ddigon oedd ei weled ef, ac eraill, yn digio am gyfrif y Bedyddwyr (yny geiriadur) yn myſg y Pencampwyr yn y gwaith hynod a gwrthun, (anſyber, ac anſobr) o greſyddol neidwriaeth; pan y gwyr pawb ei fod yn awr er ys amryw flynyddau wedi dyfod yn un o brif orchwylion, hyd yn oed, eu cymmanſa flynyddol! a hyny trwy gydſyniad cyffredinol, mor belled ag y mae dyſtawrwydd cyffredinol yn abl amlygu y fath gydſyniad.

Ac o ran eich dyſcyblaeth——y mae yn rhaid, frodyr, wrth amrywiol o amgylchiadau a ddarfu imi ſylwi arnynt yn eich heglwyſi, fod *dyſcyblaeth* efengylaidd wedi myned yn llaes a llygredig iawn yn eich plith; yr hyn yn wir, nid yw ryfeddod yn y byd, pan y golygir yr anwybodaeth yn mha un y cedwir y bobl, gan mwyaf, o ran natur a rhwymau y frawdoliaeth Grift nogol. ——Y mae pregethu *dyledſwyddau* dyſcyblion Criſt, yn eu hamrywiol ſefyllfaodd, wedi myned yn mron yn llwyr i maes o arfer gyd a chwi. Yr oedd y fath bregethu, er hyny, yn gwneud rhan fawr o weinidogaeth yr Apoſtolion, fel yr ymddengis yn dra amlwg yn eu hepiſtolau. Gallir gweled yno y dyledſwyddau duwiol a d nol, gwledig ac eglwyſig, cartrefol a chymmydogol, teuluaidd a pherthynaſol, cymdeithaſol a dinaſaidd, yn neilldnol a helueth yn cael eu goſod allan. Beth yw yr achos, frodyr, na baech chwi, o'r bron, yn dilyn eu henſampl deilwng hwy?—— Ofer f dd i un pregethwr freuddwydio neu dybied ei fod yn *cyffawni ei weinidogaeth* tra y b ddo yn eſceuluſo hyn: ac ofer hefyd, f dd dyſgwyl gweled gwir grefydd yn adfywio ac yn blodeuo, nes y delo yr athrawon i gymmeryd protreuad eu gorchwyliaeth, yn hyn, yn gyſtal a phethau eraill, oddiwrth yr apoſtolion, ac y

* Nid cof gan awdur y Geiriadur i un gwr, o'r fath alwad, daro arno, mor anhynaws a ffyrnig, erioed o'r blaen, oddieithr, yn wir, yr athraw gwych o'r Cilgwyn a Chaeronen, yr hwn a ymfroſtiai, yr un pryd, yſywaeth, "ei fod ef yn wr boneddig, yn wr dyſgedig, ac yn Weinidog yr Efengyl!"——Ymro'wyd i beidio ymddadlau ag ef, oherwydd anghymhwyſder y lle, (ty tafarn,) ynghyd a'r dybygoliaeth fod effaith cwrw, neu ryw beth o'r fath, yn ymddangos. Ni roiſid dim o'r achos lleiaf i gwr fod mor ſarrug a chiaidd.

delo 'r bobl eu hunain i ſiafu ac i garu hyny. Hyd ag y gwêliais, neu y deallais i, peth tra annerbyniol yn eich cyn'lleidfaodd fyddai cynnyg, neu, o leiaf, wneud arferiad o bregethu yn y dull a ſoniwyd. Pregethwr ſych, marwaidd, a deddfol, oedd yr enw a glywais i yn cael ei roddi i un gwr da yn eich myſg, am ei fod ef yn arfer pregethu yw beth yn y fforddhono yn fynychach na neb arall yn ei ardal.——Mor lleied y mae 'r bobl yn ei w bod am y weinidogaeth apoſtolaidd! Ac mor anmheb g, yn Brelennol, yw purdeb dyſc, blaeth i gymmeryd lle yn yr eglw ſi!

Un gwâll a diffyg mawr yn y weinidogaeth yn eich myſg chwi yw, nad ydyw (yn gyffredin) yn cael ei ſ. flaenu ar y wir wybodaeth o'r Bôd Mawr, fel *Duw'r Cariad.*——"Duw Cariad yw," medd yr apoſtol, neu, fel y gallid darllen y geiriau, "Cariad yw Duw."——Y wybodaeth hon, Frodyr, yw ſylfaen a ſ, wedd yr Efengyl. Ac nid oes un dyn yn d. ſod i wir garu Duw nes y delo i'w adnabod ef fel Duw'r Cariad. Dyla'r weinidogaeth lafaru, a datgan, a chyhoeddi y gwirionedd mawr hwn i ddynion, mor eglur ag y gwnaeth ein Harglwydd bendigedig, yn y geiriau graſuſol a chyſurfawr hyny, Jo. 3, 16. "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd ef ei uniganed ig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."——Yn gyfattebol i hyn, y mae yr Efengyl yn *newydd da* i bechaduriad p'le bynnag y delo:——Yn newydd da i bechaduriaid gwlad—i bechaduriaid byd! Pa un a wnelo pechaduriaid a'nderbyn ai peidio, y mae fyth yn *newydd da.* Y mae yn newydd da *yddi ei hun*; o blegid y mae yndi ei hun yn yn amlygu mai Cariad yw Duw. (fel y nodwyd o'r blaen,) ac mai felly y carodd ef y byd, fel y rhoddodd ef ei uniganed ig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, &c.——"Yr wyf fi," medd yr angel wrth y bugeiliaid, "yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl." Luc. 2. 10.——"Yr ydym ni yn efengylu (neu, yn traethu newydd da) i chwi;" medd yr apoſtolion wrth ddynion nad oeddent etto yn credu yn Mab Duw. Act. 13. 32. Ydyw, Frodyr, mae yr Efengyl yn newydd da, yn air yr iechydwriaeth, yn air y bywyd, yn eiriau bywyd tragywyddol, pa un a wnelo dynion a'i chredu ai peidio.——Y mae wedi cael ei hyſgrifenu, ac y mae i gael ei phregethu, fel y credo dynion mai yr Jeſu yw Criſt Mab Duw, a chan gredu y caffont fywyd yn ei enw ef. Y mae yn dwyn y fywiol a chadwedigol wybodaeth o'r unig wir Dduw, a'r hwn a anfonodd ef Jeſu Griſt: ac y mae y Grediniaeth o honi *fel y mae yn air Duw*, yn cyfnewid dynion ar ddelw Duw, ac yn eu gwneud yn gyfranogion o'r duwiol anian. Y mae yn datguddio, ac yn amlygu Enw y Bôd Mawr, nid fel gormeſdeyrn a derbyniwr wyneb, ond fel Duw'r cariad a'r maddeuant——(Tâd toſturiol, tirion, a graſlawn;) ac felly, y mae yn eu dyſcu a'u rhwymo hwy i'w garu ef, a charu

eu gilydd, a maddeu i'w gilydd, fel y mae efe yn Nghrift yn maddeu iddynt hwy.——Yr wyf yn oftyngedig yn barnu, Frodyr, nad yw y weinidogaeth yn gyffredinol yn eich plith chwi ddim yn cyf arebi'r deceifiad hwn.

Peth arall, dybygwn, ag fydd ddiffygiol yn y weinidogaeth gyda chwi yw, nad ydyw ddim yn iawn wahaniaethu rhwng Mofes a Chrift, rhwng Sinai a Sion, rhwng yr hen gyfammod, neu yr hen deftament, a'r newydd: ond yn hytrach eu cymmyfgu hwynt, yn ol dull Babel, ac megis dodi llain o frethyn newydd ar hen ddilledyn, neu win newydd mewn hen goftrelau. Y canlyniad yw, fod peth mawr o'r yfpryd Juddewig, neu yfpryd yr hen oes hwyfaeth, yn gyflal ag yfpryd Babylon, yn ymddangos ac yn treiddio trwy yr holl Eglwyfi.

Hefyd, mi a dybygwn fod y ffordd anniben o *yfpryduli*, fel ei gelwir, ag fydd yn gyffredin yn cael ei hoffi a'i dilyn gan eich pregethwyr, yn beth tra anghymhwys a niweidiol; fel y mae yn tueddu lawer mwy i dywyllu cynghor, a dyryfu meddyliau dynion, nag i agorid yr yfgrythurau i ddeall ac amgyffred y *gwirionedd*wyr——lawer mwy i *warudduddo'r Bibl*, fel llyfr o ddammegion neu ddyeithrymmygion tywyll ac annealladwy, na'i ofod allan a'i gymmeradwyo i gydwybodau dynion, fel llyfr yn mha un y mae'r Bod Mawr, mewn modd teilwng o hono ei hun, yn amlygu ei gariad a'i drugaredd, yn agorid drws gobaith, ac yn dangos ffordd diogelwch a dedwyddwch tragywyddol i bechaduriaid.

Yma nis gallaf lai na chrybwyll am yr anferthwch erchyll, a'r chwithrwydd cethin, fydd wedi cymmeryd lle, er ys tro, yn myfg y pregethwyr, yn eu dull o lafaru ac areithio——fel ped faent yn meddwl fod yfgrechain, crugleifio, bloeddio, a bytheirio geriau uwch pen pobl, yn rhan hanfodol o'r cymhwyfiadau gweinidogaethol. Dyma'r fath o lafaru fydd yn gyffredin yn gyrudynion i wallgofi a neidio yn yr addoliad. Nid rhyfedd fod y rhai mwyaf penboeth, anyftyriol, ac anwybodus yn y gynnulleidfa, (canys dyna'r fath rai yw'r neidwyr) yn cwbl golli eu golwg ar bwyll a gweddeidd-dra, pan fo'r pregethwr wedi gwneud hyny eifwys o'u blaen hwy.——Pe baent ond iawn ddyall cymmaint ag un gair, digon cyffredin yn yr iaith gymraeg, hwy a fyddent yn rhwym, yn ddiattreg i lwyr fleiddio y fath ymddygiad——a'r gair hwnw yw SOBRWYDD.

Y mae rhyw boeri diffaith a diderfyn, hefyd, yn codi ar rai pregethwyr mor gynted ag y dechreuont lafaru, ac yn parhau yn gyflon trwy gydol y cyflawniad, nes byddo'r pylpyd, o'r diwedd, wedi myned yn berffaith chwydfa, anghymhwys i un dyn fyber i fyned iddo heb ei lannau.——Ped faent hwythau unwaith yn dyfod i iawn ddyall y gair *gweddeidd-dra*, a'r gair *fyberwyd*, yr wyf yn hyderu mai nid hir y byddent heb ddechreu ymdrechu i ymwrthod a'r arfer fochaidd ac atgas hon.

Bellach, Frodyr, gan adael amryw bethau eraill a allid yn hawdd eu crybwyll, mi a gynnygaf yma rai ſylwadau ar eich cymmanfaodd blynyddol a chwarterol.——Y maent eill dwyodd gwedi dirywio llawer yn fy nghôf i, a mwy etto yn nghof hynach pobl. Y mae yn anhawdd gweled pa wir ddefnydd y maent yn awr yn ei atteb. Toſt yw'r peth, os yw cymmaint o goſt a phoen a thrafferth yn myned ei gyd yn ofer.——Gallai y rhai cwarterol fod yn foddion i gynnyddu brawdoliaeth a gwybodaeth grefyddol yn myſg yr eglwyſi cymmydogaethol lle y maent yn cylchynu, ped faent yn cael eu iawn drefni a'u defnyddio. Nid pregethu ac areithio, neu wneud ſwn ac ymddangoſiad mewn cymmydogaeth, ddylai fod prif orchwyl a gwaſanaeth a diben y cyfarfodydd hyn; ond yn hytrach *ymddiddan* ac *ymreſymu* ynghylch yr yſgrythurau, neu ynghylch amrywiol ranau crefydd Criſt, ac amgylchiadau yr eglwyſi eyſsylltiedig. O ran pregethu, tybygid y gallid yn dra chymhwys adael hyny i fod yn rhan o'r weinidogaeth gyffredinol, ar y ſabbothau ac amſerau cyfleus eraill: A chan fod ymddiddan ac ymreſymu yn rhan hanfodol o'r weinidogaeth efengylaidd, tybygid fod y cyfarfodydd hyn mor gymhwys a neb i gael eu cadw i'r diben hyny.

Y mae yn dra hyſpys fod y *cymmanfaodd blynyddol* yn cael eu cadw ar y cyntaf, dros dalm o amſer, heb ddim pregethu yn-ddynt: yn hyn ſydd yn dangos yn amlwg nad oedd hyny ddim yn un o ddibenion dechreuol y cyfarfodydd hyn. Y mae yn debyg mai yn *Ilſton*, neu Lan Illtud, yn Mro-wyr, y cadwyd cymmanfa gyntaf y Bedyddwyr yn Nghymru, ar y chweched a'r ſaithfed dydd or nawfed mis, yn y flwyddyn 1650. Cadwyd yr ail gymmanfa yn Nghaerfyrddin yn y gwanwyn canlynol, 1651.——Nid oes dim argoel fod cymmaint ag un bregeth yn y cymmanfaodd hyn, nac yn neb o'r rhai canlynol, cyn yr hon a gynnaliwyd yn Llanwenarth yn y flwyddyn 1703. Na dim mwy nag un bregeth yn un gymmanfa gwedi hyny dros fwy na 30 o flynyddodd. Yr ydym, gwedi'n, yn dechreu clywed am ambell bregeth ſaeſneg, heblaw yr un gymraeg, yn y cymmanfaodd, Cymmanfa Penygarn yn 1734 oedd y gyntaf. Mewn ffordd o dalu parch i weinidogion Lloegr, pan y dygwyddai iddynt ddyfod i'r gymmanfa, y dechreuwyd yr arfer newydd hon, Bob yn dipyn aeth yn ddefod lefydlog i gael *dwy* bregeth. Yn mhen tro, dechreuwyd galw am bregeth, hefyd, brydnawn *dydd mawrth*: a daeth hyny, mewn amſer, i fod yn arferiad ſefydlog. Felly, daethpwyd, o'r diwedd, i gael *tair pregeth* yn y Gymmanfa; lle ni chaed dim un, ar y cyntaf, a hyny dros hîr amſer. Y mae'n debyg ei fod yn llawer hawddach dirywio na diwygio.

Pan y dechreuſoch golli eich golwg ar *ſobrwydd* crefyddol, a gwylltio a gwallgofi, yn ol ſiampl wrthun y methodiſtiaid, amlhawyd y pregethu yn y cymmanfaodd, yn ddireſwm ac yn ddi-

derfyn; nes bod, o'r diwedd, ddim llai na *naw o bregethau* mewn un gymmanfa; fel yr hon a gynnaliwyd yn *Llanneich-medd*, yn yuys Fôn, yn y flwyddyn 1788.——Mor abſennol yr oedd pwyll, a rheſwm, a ſobrwydd, yn ymddangos yn y gymmanfa hono, ag y darfu i'r gweinidogion yno golli arnynt eu hunain mor belled a goſod eu dwyfol yſpryddoliaeth a'u hawddurdod eu hunain, yn eu Llythyr at yr eglwyſi, yn ogyfuwch a'r eiddo'r apoſtolion. "Os barnaſoch," medd y llythyr cywilyddus hwnw, "ein bod ni fel "cymmanfa, dan arweiniad yr yſpryd, yn danſon attoch, dylai "hyny eich rhwymo chwi i wrando yn ddiffrifol beth y mae yr "Yſpryd trwyddom yn ei ddywedyd wrthych fel eglwyſi." A glywodd neb erioed o'r blaen y fath ymadrodd oddiwrth frawdoliaeth o Neilldŵyr Proteſtanaidd? Os do; garw yw'r peth, a thruenus. Beth mwy all'ſid ei ddweud am yr apoſtolion eu hunain, a'u hepiſtolau? Pwy a ddichon ddarllen y fath eiriau rhyfygus, heb fyndod? Yn enwedig gan na chawſant etto eu galw yn ol, mewn *deng mlynedd* o amſer! Nid rhyfedd fod eglwyſi Gwynedd gwedi blino ar y cymmanfaodd!

Yn nghymmanfa *Rhydwilym* dygwyddodd imi fod, gwedi abſennoldeb o ddeunaw mlynedd. Ryfeddais am y dirywiad a'r annibendod. Gwelais fod y gymmanfa, bellach, wedi myned yn *ffair*; yn berffaith *ffair gwagrad*; (os nid rhyw beth gwaeth:) a'r pregethwr oedd *ffwl y ffair*; gwedi cael ei ddyrchafu uwch ben y dorf, i ddim arall, dybyg'ſid, ond i ddifyru y blaen! O! Frodyr, na thwylier chwi! Bach yw yr argoel mai Criſt'nogrwydd yw crefydd eich cymmanfaodd chwi, y dyddiau hyn, (nwy na'r eiddo y Methodiſtiaid, y rhai yr ydych yn rhy fanol yn eu dilyn;) ond y mae yn fwy tebyg mai *Babyloniaeth* ydyw.

Yn myſg pethau hynod cymmanfa, (neu *ffair* anferthol) Rhydwilym, oedd y deiſyfiad chwithig o *Landyſſaen*, am gael *cenad i ddechreu*; ynghyd a gwaith y gymmanfa (chwithicach etto, os yw boſib',) yn rhoi i'r eglwys hono lythyr o ganiatâad, *(Licence)* i'r pwrpas hyny.—— Nid llai hynod, neu ledchwith, oedd gwaith yr un pobl, (druain!) yn y gymmanfa ganlynol, ſef *Landyſſyl*, yn *diolch*, yn dra goſtyngedig, am y cyfryw ganiatâad, neu *liceree*, ag a gawſent y flwyddyn o'r blaen.—Felly, yſywaeth, y dyſgaſant hwy Criſt!

O ran cymmanfa *Landyſſyl*, ei phen gorchwyl, dybygid, oedd *trin Sion o Abertawe*; am anghytuno a rhyw frawd, mewn ymddiddan dirgel neu deuluaidd, ynghylch rhyw byngciau nad oedd yr un o honynt, na'r gymmanfa, 'chwaith, yſgutlydd, yn eu dyall. Tybygid fod rhyw hên gulni yn rhai dynion tuag at *Sion*; o ba herwydd nis gwn i. Ond nis gallir llai na chono am y tam diffaith a wnaed arno ef, ddwy flynedd o'r blaen yn nghymmanfa hynod Aberduar. Aethpwyd a'r gwaith yn ei erbyn ef yn *rhaeadr* mor belled ag y gallid, yn Llandyſſyl; ond barnwyd mo yn

nglwrdd Cwarter Blaenau-glyn-tawe y byddai oreu i wneud dybendod o hono. Gyrwyd yno, dros gwmpydd a glenydd; agorwydd frawdle; a chafodd Sion, yn ebrwydd, ei cuog-farnu.—Gyrwyd, gwedi'n, at draws y wlad; i lawr i gwrdd Cwarter Trefdraeth, ac i fynu i gwrdd Cwarter Ciffowyr! i'r pwrpas, dybygid, i geisio cacad pob pylpyd, a phob drwg, a phob calon yn erbyn hên *Sion*. Beth oedd y canlyniad?

Un canlyniad hynod oedd, gwneud crefydd, a neilldueth, ac enw y bedyddwyr yn watwargerdd, *o'r newydd*, trwy holl dref Aberrawe a'i chylchodd. Tybygsid fod llawn ddigon o waith o'r fath hyny wedi cael ei wneud yn y dref hono o'r blaen, i beri i chwi fod rywbeth yn fwy gwagelog y tro hwn. Ond ofer, y mae'n debyg, yw dysgwyl i ddynion gymmeryd rhybudd oddiwrth unrhyw rag-brofiad, neu rag-ddygwyddiad, pan fyddo eu pwyll, a'u hysbryniaeth hwy wedi myned ar gyfrgoll.

Canlyniad blin arall o fesurau byrbwyll ac annoeth y gymmanfa ddiweddaf yw, fod rhai o'r gweinidogion wedi blino cymmaint o'u plegid, a'u bod wedi amcanu a chynnyg ymgyfyllitu a'r *Bedyddwyr Cyffredinol* yn Lloegr. Dygwyddodd imi, tra yr oeddwn yn arps yn Llundain, ar fy ffordd adref, weled un o'r llythyrau, a gallaswn weled ychwaneg, ped fuaswn yn chwennych. —Yr oeddwn, yn wir, yn barod i feddwl, wrth weled yspryd traws-lywodraethol a thra-arglwyddiaethus y gymmanfa, ynghyd ag ymddygiad afrywiog a thrahaus *gwyr y ffrwd*, yn nghyfraniad eu harian cynheu, mai rhywbeth o'r natur hyn fyddai 'r diwedd.

O bryfur, Frodyr, y mae'n rhaid fod ar y gymmanfa, bellach, ddirfawr eisieu diwygio. Atnolwg i chwi, dechreuwch y leni ar y gwaith. Y mae pobl Gwynedd, y mae'n debyg, yn ymroi i wneuthur hyny. Dilynwch eu hampl deilwng hwy. Na feddyliwch oedi, i ddisgwyl amser mwy cyfleus neu gyfaddas. Peth peryglus yw hyny. Y mae'n rhy debyg na welwch chwi byth gymmwyfach amser. Lleihawch y pregethu, a chymmerwch fwy o odfa i ymmyddiddan ac ymgynghori; i ystyried achos Crist, amgylchiadau yr Eglwys, ac arwyddion rhyfeddol yr amserau. Gofalwch i wneud y Llythyrau blynyddol at yr Eglwys yn fwy teilwng o'u derbyniad a'u cymmeradwyaeth, na'r rhan fwyaf o'r rhai a ddanfonasoch attynt o fewn i'r ddeuddeg neu bymtheg mlynedd ddiweddaf. A derbyniwch y sylwiadau difrifol hyn, a Gair y Cyngor, mewn cariad, oddiwrth

Eich diffuant Ewyllysiwr da,

A Ffyddlon Wasanaethwr yn yr Efengyl,

W. RICHARDS.